Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Dr Carol James
Ysgol Gynradd Hafodwenog
Trelech
Caerfyrddin
SA33 6RU

25/04/2025

Annwyl Dr James

**Ymweliad interim:** Ebrill 2025

Diolch am y croeso cynnes dderbyniodd y tîm yn ystod yr ymweliad interim diweddar. Buont yn ystyried y cynnydd mae'r ysgol wedi ei wneud wrth ymateb i ddau o argymhellion yn arolygiad craidd diwethaf. Cafwyd cyfle i drafod gydag arweinwyr, athrawon a staff cymorth, gan ystyried y modd rydych wedi cyd weithio er mwyn ymateb i'r argymhellion dan sylw. Cafwyd cyfleoedd i sgwrsio gyda disgyblion am eu profiadau dysgu, ac i graffu ar eu gwaith.

Isod, mae crynodeb o gynnydd gyda'r argymhellion. Hyderwn y bydd y sylwadau'n fuddiol wrth i chi barhau i ddatblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella'r ysgol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau

- Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella clir sy'n canolbwyntio ar godi safonau dysgu ac addysgu. Mae'r gweithdrefnau hyn yn synhwyrol a chynaliadwy ac yn ystyriol o lwyth gwaith staff. Bellach, mae'r holl rhanddeiliaid yn rhan annatod o'r prosesau.
- Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a'r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm effeithiol sy'n ymroi'n llwyr i werthoedd a gweledigaeth yr ysgol. Mae dyletswyddau'r staff wedi eu dosrannu'n synhwyrol ac maent yn derbyn cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr i'w cefnogi i fod yn rhan ragweithiol o'r prosesau hunan wella.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn gyson, fel rhan o'r broses wella. Maent yn cynnal teithiau dysgu, yn craffu ar lyfrau a chynnal cyfarfodydd cyson gyda'r pennaeth ac arweinwyr y meysydd dysgu a phrofiad i drafod cynnydd disgyblion. Mae hyn wedi cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth osod cyfeiriad strategol i'r ysgol.
- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau gwella ac o'r meysydd sydd angen iddynt ddatblygu ymhellach. Maent yn defnyddio amrediad buddiol o dystiolaeth i werthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.
- Mae staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant ac ymweld ag ysgolion lleol er mwyn rhannu profiadau a rhannu arfer dda. Drwy gydweithio cyson a bwriadus gydag ysgol leol, sydd hefyd o dan arweinyddiaeth y pennaeth, mae arweinwyr a staff yn cefnogi ei gilydd er mwyn datblygu'r ddarpariaeth i gefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol.

## Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol i'r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu a datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol

- Mae'r pennaeth wedi darparu profiadau dysgu proffesiynol gwerthfawr i'r athrawon er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o elfennau addysgu effeithiol. Maent yn rhannu arferion gyda'r ysgol arall mae'r pennaeth yn gyfrifol amdani, gan ddod at ei gilydd yn rheolaidd i rannu arfer dda. Maent yn rhannu arferion o ran cynllunio, ac wrth ddarparu gweithgareddau ysgogol sy'n herio'r disgyblion i ddatblygu eu gwahanol fedrau ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r staff wedi rhoi sylw gofalus i'r angen i sicrhau her priodol yng ngweithgareddau dysgu'r disgyblion gan gadw golwg manwl ar gynnydd yn eu gwahanol fedrau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn magu annibyniaeth ac yn dod yn gynyddol uchelgeisiol.
- Bellach mae'r athrawon yn sicrhau gweithgareddau sy'n caniatáu i'r disgyblion wneud dewisiadau o fewn eu tasgau. Yn y dosbarth dysgu sylfaen, o oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus gan arddangos medrau cadarn. Maent yn sgwrsio'n aeddfed am y gwahanol heriau sy'n cael eu cynnig iddynt.
- Yn nosbarth y disgyblion hŷn ceir amrediad eang o gyfleoedd buddiol i'r disgyblion wneud dewisiadau am sut i gyflawni gofynion gwahanol dasgau. Maent yn ymateb i'r gweithgareddau hyn yn aeddfed, gan gydweithio'n llwyddiannus er mwyn ateb gofynion y dasg. Dangosant lefel uchel o ddyfalbarhad, gan werthuso'u cynnydd eu hunain a dysgu o'u camgymeriadau. Ar draws yr ysgol, mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd ym medrau'r disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692182

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol